

Newid cyflenwr ynni

Ydych chi'n cael trafferth talu eich bil ynni?

Os ydych yn cael anawsterau talu eich biliau nwy a thrydan, dylech ymdrin â'r broblem ar unwaith. Ystyrir dyledion trydan a nwy yn ddyledion blaenoriaeth oherwydd gall eich cyflenwr ynni dorri eich cyflenwad.

Os na allwch dalu eich taliadau ynni dylech gysylltu â'ch cyflenwr ynni, egluro'r sefyllfa a chynnig talu swm y gallwch ei fforddio. Mae pob cyflenwr ynni yn dilyn cod ymarfer sy'n golygu na fydd yn torri eich cyflenwad os byddwch yn cytuno ar gynllun talu ac yn ei ddilyn. Gallai cynllun talu gynnwys taliadau wythnosol, bob pythefnos neu bob mis ddefnyddio mesurydd rhagdal.

Pa help arall sydd ar gael?

Tanwydd Uniongyrchol

Os ydych yn cael trafferth cytuno ar gynllun taliadau fforddiadwy neu ei ddilyn, gallai Tanwydd Uniongyrchol eich galluogi i wneud taliadau fforddiadwy yn uniongyrchol o fudd-daliadau cymwys penodol y gallech fod yn eu cael.

Dim ond os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol y byddwch yn gymwys i gael Tanwydd Uniongyrchol:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn

Ar Danwydd Uniongyrchol, caiff taliad wythnosol ei dalu yn uniongyrchol i'r cyflenwr ynni a'i ddiwyddu o'r swm o arian rydych yn ei gael mewn budd-daliadau. Y swm penodol a delir ar gyfer adennill dyled ar hyn o bryd yw £3.70.

Ar ben hyn caiff swm ychwanegol ei gymryd bob wythnos er mwyn talu am eich defnydd parhaus o ynni. Gall eich canolfan waith leol drefnu Tanwydd Uniongyrchol i chi. Yn gyffredinol os oes gennych ddyled o £71 neu fwy (a'ch bod yn cael budd-dal cymwys), hefyd gallwch ofyn i'r cyflenwr ynni wneud cais am Danwydd Uniongyrchol ar eich rhan.

Grantiau Cyflenwyr Ynni

Os ydych mewn dyled i'ch cyflenwr ynni, gallech gael grant i helpu i'w thalu.

Mae'r cwmnïau ynni canlynol yn cynnig grantiau a chynlluniau sy'n agored i unrhyw un:

- Nwy Prydain
- EDF
- E.on

Mae'r cwmnïau ynni canlynol yn cynnig grantiau yn arbennig i'w cwsmeriaid:

- Cronfa Ynni npower
- Cronfa Caledi Scottish Power
- Cronfa Ynni Ovo
- Cronfa Cymorth Blaenoriaeth SSE (Southern Electric) - gofynnwch a ydych yn gymwys drwy ffonio 0800 072 8616

Pan fyddwch yn gwneud cais am grant, bydd yn rhaid i chi roi gwybodaeth fanwl am eich sefyllfa ariannol yn eich cais.

Cysylltwch â Nyth ar Rhadffôn

0808 808 2244

i weld sut y gallwn eich helpu chi

